eiriolaeth advocacy
Y Rhaglen Edau Euraidd
The Golden Thread Programme

age Cymru
Creu Cymru oed gyfeillgar
Creating an age friendly Wales

# Cylchlythyr Eiriolaeth

**Medi 2016 Rhifyn 1**

Croeso i rifyn cyntaf ein cylchlythyr eiriolaeth newydd a gynhyrchir bob deufis. Bydd yn dod â gwybodaeth, diweddariadau, arfer da, a rhoi dolenni i ddogfennau defnyddiol, hyfforddiant, gwefannau a newyddion sydd i gyd yn ymwneud ag eiriolaeth!

## *Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd*

Ein newyddion da cyntaf yw bod Llywodraeth Cymru wedi ariannu Age Cymru i gyflwyno Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd mewn partneriaeth ag Age Connects a Diverse Cymru. Bydd yn cynorthwyo gweithredu Rhan 10 (Eiriolaeth) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cymru 2014. Mae'r rhaglen yn gofalu am eiriolaeth nid yn unig i bobl hŷn ond i holl oedolion dros 18 oed. Mae'n parhau o'r lle y daw cylch gwaith Grŵp Arweinyddiaeth Strategol Eiriolaeth Plant i ben. Golyga hyn ein bod yn gofalu am yr holl boblogaeth rhyngom!

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cymru 2014 i rym ar 6ed Ebrill 2016. Bydd yn cael effaith fawr ar y mathau o wasanaethau Awdurdodau Lleol a gyflwynir a sut y'i cyflwynir yng Nghymru. Mae'n rhoi pobl wrth galon cyflwyno gwasanaeth. Golyga hefyd y dylai awdurdodau lleol sicrhau bod gan unigolyn fynediad at eiriolaeth mewn amgylchiadau penodol.

Mae Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn wasanaeth a all gynorthwyo rhywun i gyfranogi'n llawn mewn penderfyniadau am eu lles. Sicrha y clywir, perchir a chofnodir eu barn, dymuniadau a theimladau. Cynorthwya eiriolaeth bobl i gadarnhau eu hawliau, i fynegi eu safbwyntiau a'u barn ac i wneud penderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnynt. Os yw'n angenrheidiol, mae'n cynrychioli barn pobl mewn cyfarfodydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Rhaglen Edau Euraidd am 3 blynedd i:

- wella lles oedolion drwy eiriolaeth a rhoi llais cryfach iddynt
- gwella argaeledd gwasanaethau eiriolaeth i oedolion, a
- gweithio gydag awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau i gynorthwyo datblygu a chomisiynu gwasanaeth eiriolaeth i oedolion

Ceir mwy o wybodaeth hefyd ar [www.agecymru.org.uk/advocacy](http://www.agecymru.org.uk/advocacy)

Parhad...

**Tîm y Rhaglen Edau Euraidd yw:**

**Louise Hughes** Rheolwr Rhaglen louise.hughes@agecymru.org.uk

Ffôn: 01352 706228 neu 07837 348308

**Ffion Jones** Cynorthwyydd Cymorth Rhaglen ffion.jones@agecymru.org.uk

Ffôn: 01352 706228

**Carys Griffiths** Swyddog Datblygu Rhaglen (PDO) dros Bartneriaethau

Ffôn: 07932 989656 carys.griffiths@agecymru.org.uk

**Huw Davies** PDO dros Gomisiynu yng Nghanolbarth a De Orllewin Cymru

Ffôn: 07932 989657 huw.davies@agecymru.org.uk

**Val Billingham** PDO dros Gomisiynu yng Ngogledd Cymru

Ffôn: 07932 989685 valerie.billingham@agecymru.org.uk

**Paul Swann** PDO dros Gomisiynu yn Ne Ddwyrain Cymru

Ffôn: 07932 989659 paul.swann@agecymru.org.uk

## *Dyma'r tîm*

### *Carys Griffiths*

Ymunodd Carys ag Age Cymru fis Mehefin fel Swyddog Datblygu Rhaglen dros Bartneriaethau gyda Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd Age Cymru. Mae Carys yn gweithio gyda darparwyr gwasanaeth eiriolaeth newydd a phresennol ledled Cymru i sicrhau eu bod yn barod i ymgeisio am dendrau eiriolaeth. Bydd yn datblygu a chyflwyno gweithdai sy'n cynnwys cofrestru a phroffiliau GwerthwchiGymru; y broses dendro a'r hyn y mae comisiynwyr yn chwilio amdano mewn tendr; tendro electronig; ynghyd â chwmpasu cydweithrediad gyda darparwyr llai a sut allant weithio gyda'i gilydd i gyflwyno cynnig cryfach. Bydd Carys hefyd yn datblygu adnoddau i gynorthwyo darparwyr eiriolaeth fel y gweithredir dyletswydd newydd ynghylch eiriolaeth.

Wedi treulio y rhan fwyaf o'i gyrfa flaenorol mewn cymorth busnes, yn ei rolau amrywiol cynorthwyodd gwmnïau i nodi anghenion hyfforddiant cwmni ac unigol. Darparodd gyngor busnes i fusnesau newydd. Cynorthwyodd hefyd ddarparwyr cymorth busnes prif ffrwd ledled Cymru i fod yn fwy amrywiol yn eu rolau ymgynghorol ac arferion gweithio. Gydag ymroddiad i gwrdd ag amcanion personol a sefydliadol, mae gan Carys ystod o brofiad mewn rheoli cleientiaid ar bob lefel gan sicrhau dealltwriaeth o anghenion. Mae'n meithrin a datblygu perthynas waith ynghyd ag annog a chymell cleientiaid i gyflawni eu canlyniadau dymunol.

### *Paul Swann*

Mae Paul yn Swyddog Datblygu Rhaglen dros Gomisiynu ar Brosiect Eiriolaeth Edau Euraidd, gan ofalu am Dde Ddwyrain Cymru. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd, darparwyr eiriolaeth ac eraill i gynorthwyo datblygu agwedd strategol i ddarparu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru).

Parhad...

Ymunodd Paul â'r prosiect wedi 7 mlynedd fel Swyddog Polisi Byw'n Annibynnol gydag Anabledd Cymru. Bu hefyd am 5 mlynedd yn Swyddog Comisiynu a Chynllunio Gwasanaethau Cymdeithasol gyda Chyngor Sir Bwrdeistref Wrecsam. Yno creodd strategaeth comisiynu eiriolaeth. Mae Paul wedi cyflwyno eiriolaeth ar ran y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol. Rhoddodd hyn lawer o barch iddo am y gwaith hynod fedrus a heriol mae eiriolwyr yn ei wneud. Mae hefyd yn eiriolwr a gofalwr anffurfiol i rywun sydd â Syndrom Asperger.

Mae Paul yn byw ger Aberhonddu. Mae ganddo ddau fab sydd wedi tyfu i fyny. Y tu allan i'r gwaith, mae ganddo ddiddordeb mewn effaith gymdeithasol ac amgylcheddol y system economaidd fyd-eang, yn enwedig ar yr hinsawdd, a'r heriau cymhleth y cyflwyna hyn. Er cydbwysedd, mae'n gefnogwr mawr o gerddoriaeth metel trwm tanddaearol. Mae'n mwynhau mynd i gigiau a gwyliau cerddoriaeth fetel. Mae ganddo hefyd hiwmor gwahanol ac unigryw a mwynha gomedi dywyll.

### *Valerie Billingham*

Val Billingham yw Swyddog Datblygu Rhaglen dros Gomisiynu (Gogledd Cymru). Ei rôl yw gweithio gyda chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a rhanddeiliaid eraill yng Ngogledd Cymru. Mae'n cynorthwyo i ddatblygu trefniadau comisiynu newydd ar gyfer gwasanaeth eiriolaeth proffesiynol annibynnol ar y cyd â Rhan 10 (Eiriolaeth) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru).

Ganwyd a magwyd Val ym Mhort Talbot. Gadawodd i astudio Eifftoleg ym Mhrifysgol Birmingham. Mae wedi treulio'r rhan fwyaf o'i gyrfa yn Lloegr. Mae'n falch iawn o gael y cyfle i weithio yng Nghymru!

Mae Val yn gyn was sifil llwybr carlam yn yr Adran Iechyd yn Whitehall. Roedd yn gyn Bennaeth Cyfranogiad Defnyddwyr yn Sefydliad Prydeinig y Galon, gan ofalu am y DU i gyd. Mae Val wedi bod yn ymroddedig i gynorthwyo ymreolaeth i bobl o bob oed ers ei glaslencyndod. Bryd hynny, gwelodd ddirywiad iechyd ac annibyniaeth ei hen daid a oedd yn byw fel rhan o'i theulu am flynyddoedd olaf ei fywyd. Y profiad hwn oedd y rheswm pam y dewisodd astudio iechyd ac ymreolaeth heneiddio a chynnal ar ei Chymrodoriaeth Harkness i'r UDA yn 1995-6.

Mae Val yn frwdfrydig ac egnïol am y cyfleoedd i drawsnewid gwasanaeth i gynyddu gwerthfawrogiad pobl o bob oed fel rhinwedd yn hytrach na bwrn. Mae'n mwynhau galluogi pawb i barhau i arwain bywydau llawn ac ystyrlon a rhoi cymorth i'r rhai hynny sydd ei angen.

### *Huw Davies*

Ymunodd Huw â Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd ddiwedd Mehefin eleni fel y swyddog Datblygu Rhaglen ar gyfer gwaith comisiynu ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru gan gynnwys y bae Gorllewinol. Bydd Huw yn gweithio gyda swyddogion comisiynu ledled y rhanbarth hwn i ddatblygu gallu a methodoleg arfer ynghylch comisiynu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cymru 2014. Bydd hefyd yn gweithio ar y cyfrifoldebau ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd o'i herwydd. Bydd hefyd yn gweithio i gynorthwyo datblygu cynlluniau eiriolaeth newydd a chynaliadwy gan sicrhau y clywir llais a chynorthwyir lles holl unigolion sy'n dod i gysylltiad gyda nawdd y ddeddf.

Cyn cychwyn ei rôl gydag Age Cymru mae Huw wedi treulio'r rhan fwyaf o'i yrfa yn cynorthwyo'r rhai hynny na chlywir eu lleisiau o hyd. Yn fwyaf diweddar, gweithiodd fel rheolwr eiriolaeth gan weithio i Age Cymru Sir Gâr gan redeg cynllun eiriolaeth llwyddiannus. Mae gan Huw ymroddiad cryf i hyrwyddo a gwarchod hawliau sylfaenol pobl. Mae'n cynorthwyo rhai sydd mewn gwir angen. Mae'n credu'n gryf mai Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd yw'r ffordd orau i sicrhau bod y rhai hynny sydd â hawl i eiriolaeth yng Nghymru yn gallu ei dderbyn. Mae gan Huw ystod o brofiad gan weithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid ynghyd â gweithio mewn modd cyd-gynhyrchiol i sicrhau bod gwasanaethau yn cwrdd ag anghenion y rhai sydd eu hangen.

### *Louise Hughes*

Mae Louise wedi gweithio i Age Cymru ers 10 mlynedd. Hyd fis Ebrill eleni roedd yn Rheolwr Diogelu. Fis Ebrill derbyniodd swydd Rheolwr Rhaglen i Raglen Eiriolaeth Edau Euraidd. Ei rôl yw sicrhau y cyflwynir canlyniadau'r rhaglen a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. Adeilada a chynorthwya gysylltiadau strategol a lleol gyda rhanddeiliaid ledled Cymru.

Dros y 10 mlynedd ddiwethaf mae Louise wedi bod ynghlwm mewn ymgyrchu am fwy o fynediad at eiriolaeth annibynnol. Mae wedi ymgymryd ag ymchwil bob 2 flynedd ar gyflwr eiriolaeth yng Nghymru. Cadeiria Rwydwaith Cenedlaethol Gwasanaethau Eiriolaeth Pobl Hŷn yng Nghymru. Cynorthwya'r rhwydwaith hwn eiriolwyr pobl hŷn. Mae'n adnodd arbenigedd ac arfer gorau ar faterion perthnasol i bobl hŷn.

Mae Louise wedi gweithio â phobl hŷn am dros 20 mlynedd yn bersonol a phroffesiynol. Roedd Louise yn gofalu am berthnasau mewn oed. Gweithiodd i asiantaeth gofal cartref ynghyd â gwirfoddoli i'r Gymdeithas Alzheimer leol.

Cyn gweithio i Age Cymru mae Louise wedi sefydlu a chydlynu prosiectau gan gynnwys Gwasanaeth Gwybodaeth, Gwasanaeth Buddiannau Lles a Gwasanaeth Eiriolaeth argyfwng sy'n seiliedig ar fater generig.

### *Ffion Jones*

Mae Ffion wedi gweithio i Age Cymru ers 10 mlynedd. Hyd at fis Ebrill eleni roedd yn Weinyddwr Rhaglen Ddiogelu. Ddechrau Ebrill derbyniodd Ffion y rôl newydd fel Cynorthwyydd Cymorth Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd. Mae ei rôl newydd yn cynnwys llawer o dasgau fel gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf i'r rhaglen; a rhoi cymorth cyffredinol i'r holl dîm, Rheolwr y Rhaglen a'r Bwrdd. Mae hyn yn cynnwys ymchwil ddesg, trefnu cyfarfodydd a digwyddiadau gan gynnwys bod yn ysgrifenyddiaeth Rhwydwaith Cenedlaethol Gwasanaethau Eiriolaeth Pobl Hŷn yng Nghymru. Mae'n cynorthwyo creu adnoddau a datblygu a chreu cylchlythyr eiriolaeth bob deufis. Mae'n cynnal a chadw gwefannau'r rhaglenni ac yn goruchwylio hyrwyddiad cyfryngau cymdeithasol y rhaglen.

Mae Ffion yn gweithio'n rhan-amser hefyd i Headway fel Cydlynydd Cymorth Rhwydwaith dros Ogledd Cymru. Mae'n rhoi gwybodaeth i'r Canghennau Headway yng Ngogledd Cymru. Cyn gweithio i Age Cymru, roedd Ffion yn Weithiwr Cymdeithasol Addysg dan hyfforddiant i Gyngor Sir Ddinbych. Gweithiodd gyda phlant a phobl ifanc.

## *Tîm Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd*




O'r chwith: Huw Davies, Ffion Jones, Carys Griffiths, Paul Swann, Valerie Billingham and Louise Hughes.


## *Cynorthwyo comisiynu gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol*

**Y gwahaniaeth rhwng comisiynu a chaffael**

Mae'n hawdd drysu rhwng y termau "comisiynu" a "chaffael". Mae'n bwysig cofio bod yn glir am eu hystyr. Mae caffael yn cyfeirio at y broses wirioneddol o gael nwyddau a gwasanaethau drwy dendro a chontractio. Mae'n dechrau gyda manyleb y gwasanaeth.

Mae comisiynu yn broses gylchol y dylid ei hymgymryd gan weithwyr proffesiynol a dinasyddion yn gweithio gyda'i gilydd yn gyd-gynhyrchiol. Dechreua gydag asesu anghenion a rhinweddau'r boblogaeth leol a chynyddu'r boblogaeth leol a chynyddu i lunio strategaethau a chynlluniau i gwrdd â'r anghenion hynny. Yn ogystal, llunio canlyniadau lles sydd fwyaf pwysig i'r bobl sy'n derbyn gwasanaethau, wrth wneud y defnydd gorau o'r adnoddau ar gael. Mae hyn yn cynnwys penderfynu ar y lleoliad; cost ac ansawdd gwasanaethau; sut cânt eu cyflwyno; pwy fydd yn eu cyflwyno; ymgymryd â'r broses gaffael; monitro cyflwyno gwasanaethau; a defnyddio'r wybodaeth a dderbyniwyd i hysbysu'r rownd nesaf o asesiad anghenion.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu cynllun sy'n dangos y berthynas rhwng comisiynu a chaffael.




Bydd angen i gomisiynwyr gwasanaeth eiriolaeth proffesiynol annibynnol ddilyn y cylch ehangach hwn. Bydd hyn yn sicrhau ymgysylltiad ystyrlon ac effeithiol gyda dinasyddion a darparwyr. Bydd yn cael ei ddefnyddio i hysbysu'r broses gaffael, os yw'r gwasanaethau a gomisiynant i fod yn effeithiol.

**Datblygu comisiynu i wasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol**

Mae comisiynu gwybodaeth ymarferol yn parhau i esblygu yng Nghymru yn enwedig o ran gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol i oedolion. Amrywia gwybodaeth leol a gallu, a gwahaniaethir rhwng amgylchiadau lleol. Mae Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd yma i gynorthwyo awdurdodau lleol a byrddau iechyd i gomisiynu gwasanaeth eiriolaeth proffesiynol annibynnol. Yn ogystal, mae'n creu gallu darparwyr eiriolaeth i gyflwyno'r gwasanaeth statudol newydd i oedolion dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014. Mae rhai ffynonellau, o fewn Cymru a thu allan, y gallwn eu defnyddio.

Parhad...

Er mwyn comisiynu unrhyw wasanaeth yn effeithiol, mae'n bwysig bod y rhai hynny sydd i gyd ynghlwm â dealltwriaeth dda o'r hyn mae eiriolaeth yn ei olygu ar ddechrau'r broses gomisiynu. Mae nifer o adnoddau wedi'u datblygu gyda'r diben hwn mewn golwg. Mae hyn yn cynnwys pecyn hyfforddi a ddatblygwyd gan Age Cymru ar ran Cyngor Gofal Cymru.

O fewn Cymru, mae cynllunio strategol ar gyfer eiriolaeth broffesiynol annibynnol i blant a phobl ifanc yn sylweddol uwch nag y mae i oedolion. Mae Grŵp Arweinyddiaeth Strategol, a gynorthwyir gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen, ar hyn o bryd yn datblygu agwedd genedlaethol i eiriolaeth annibynnol i rai grwpiau o blant a phobl ifanc yng Nghymru. Gorchwyl y grŵp yw:

- nodi a datblygu cydrannau allweddol ar gyfer Agwedd Genedlaethol i Eiriolaeth;
- ceisio sicrhau cyflwyno'r agwedd hon drwy awdurdodau blaenllaw o fewn Cydweithrediadau Rhanbarthol Gwasanaethau Cymdeithasol

Yn Lloegr cynhyrchodd Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE) *Deddf Gofal 2014: Comisiynu eiriolaeth annibynnol*. Anelodd hon at "gynorthwyo swyddogion mewn awdurdodau lleol ystyried eu dyletswyddau newydd a deall beth mae gofyn iddynt ei wneud i gydymffurfio â gofynion Deddf Gofal 2014". Mae adran ar Arfer Da yn cynnig rhai diffiniadau o gomisiynu, canlyniadau a chyd-gynhyrchu. Mae'n gwahaniaethu rhwng gwahanol rolau comisiynu a chaffael. Mae hefyd yn gosod rhai safonau ar gyfer comisiynu eiriolaeth dda. Disgrifia ystod o weithgareddau comisiynu o dan benawdau "dadansoddi, cynllunio, gwneud ac adolygu" a ddefnyddir yn y cynllun safonol o gomisiynu a chaffael.

Yn yr Alban, lle nad oes cyfatebiad uniongyrchol i Ddeddf Gofal Lloegr 2014 na Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, cyhoeddwyd *Canllaw Eiriolaeth Annibynnol i Gomisiynwr* yn 2013. Yma caed cylch gwaith ehangach sy'n cynnwys eiriolaeth y tu mewn a thu allan i gyd-destun gwasanaethau cymdeithasol. Mae adran ar Gynorthwyo Eiriolaeth Annibynnol yn rhoi arweiniad defnyddiol ar y broses o gomisiynu eiriolaeth. Cynorthwyodd fersiwn gynharach o Ganllaw'r Alban hysbysu'r broses gaffael a ddefnyddiwyd yn Wrecsam i gynhyrchu'r strategaeth gomisiynu ar y cyd sef *Gweithiau Eiriolaeth: Cynyddu mynediad at eiriolaeth annibynnol yn Wrecsam.*

Yng Ngogledd Iwerddon cyhoeddwyd *Cynllun gweithredol eiriolaeth* yn 2012. Ynddo caed *Canllaw polisi i gomisiynwyr.* Cynlluniwyd hwn i roi arweiniad ymarferol ar gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth mewn lleoliad gofal iechyd a chymdeithasol. Roedd yn cynnwys sut allant gael eu cynorthwyo, eu monitro a'u gwerthuso. Argymhellodd y ddogfen y dylid sefydlu grwpiau comisiynu eiriolaeth ranbarthol i sicrhau mwy o gydraddoldeb a chysondeb mewn comisiynu. Gosodwyd chwe egwyddor comisiynu, ynghyd â deg egwyddor a safon ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth. Fis Ionawr 2016 cyhoeddwyd *Adolygiad o wasanaethau eiriolaeth i blant ac oedolion yng Ngogledd Iwerddon.* Ynddo ceir wyth argymhelliad ar gyfer gwelliannau yn y broses gomisiynu ac ansawdd gwasanaethau eiriolaeth. Mae atodiad yn darparu siart lif yn gosod proses enghreifftiol ar gyfer comisiynu gwasanaethau eiriolaeth.


Bydd tîm Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd yn tynnu ar y rhain ac adnoddau eraill wrth i ni fynd ymlaen. Byddwn hefyd yn datblygu adnoddau newydd sy'n benodol ar gyfer comisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol i oedolion yng Nghymru.

**Asesiad Poblogaeth**

Mae'r cylch comisiynu yn dechrau gydag asesu anghenion a rhinweddau'r gymuned leol. Mae'n gam cyntaf tuag at ddatblygu cynlluniau a manylebau gwasanaeth effeithiol. Mae'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cynhyrchu *Pecyn Asesiad Poblogaeth* i gynorthwyo comisiynwyr gynnal asesiad poblogaeth a chynhyrchu adroddiad asesiad poblogaeth. Mae disgwyliad clir y dylai Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd weithio mewn partneriaeth i gynnal yr asesiad.

Parhad...

Mae angen iddynt ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys darparwyr gwasanaeth eiriolaeth. Mae partneriaethau a rhwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol mewn grym (er enghraifft, y pedwar Cydweithrediad Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol: Gogledd Cymru; Gofal Iechyd Canolbarth a Gorllewin Cymru; bae Gorllewinol, a De Ddwyrain Cymru). Bydd y tîm yn ymgysylltu â hwy i gynorthwyo datblygu gwasanaethau eiriolaeth.





O ran eiriolaeth, dywed y pecyn:

- mae eiriolaeth yn wasanaeth ataliol sylfaenol. Mae wedi'i dargedu at unigolion sy'n gymharol iach a gweithgar. Mae'n atal rheidrwydd i bobl ystyried cael mynediad at ofal a chymorth;
- dylai'r adroddiad poblogaeth osod asesiad gwasanaethau osgoi, gan gynnwys gwasanaethau eiriolaeth;
- dylai cynlluniau gwasanaeth sicrhau ymateb i'r gofynion eiriolaeth ar gyfer holl unigolion;
- dylai comisiynwyr ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau eiriolaeth annibynnol, ymysg eraill, fel rhan o'r broses asesu;
- lle nad yw unigolyn yn gallu mynegi eu barn, dymuniadau neu deimladau, dylai comisiynwyr sicrhau y cynorthwyir yr unigolyn i wneud hynny. Mae'r pecyn yn rhoi dolen i'r Cod Ymarfer ar Eiriolaeth. Mae'n gosod hawliau a hawliadau pobl i gymorth eiriolaeth;
- Dan y Cod Ymarfer, dylai comisiynwyr mewn amgylchiadau penodol sicrhau y cynorthwyir unigolyn gan eiriolwr annibynnol am ddim cost i'r unigolyn.

Parhad...

**Cyfranogiad dinasyddion**

Dywed y Cod Ymarfer ar Eiriolaeth y dylai ystod eang o unigolion, grwpiau a sefydliadau sy’n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth leol, fod ynghlwm â’r asesiad poblogaeth. Mae pwyslais cryf ar ymgysylltiad gweithredol ac arloesol, yn hytrach nag ymgynghoriad. Mae’r pecyn yn cynnwys adran ar ymgysylltiad i gynorthwyo comisiynwyr i wneud hyn.




Os yw comisiynwyr i gael darlun cywir o anghenion a rhinweddau o fewn eu cymunedau mae’n hanfodol eu bod yn cynnwys derbynwyr gwasanaeth o ddechrau’r broses gomisiynu a’r holl ffordd o amgylch y cylch comisiynu. Mae hyn ynghyd â llunio cynlluniau cadarn, caffael gwasanaethau priodol a chynaliadwy a’u monitro yn effeithiol. Cynorthwya’r Cylch Ymgysylltiad sefydliadau ymgymryd ag ymgysylltiad ystyrlon cleifion a chyhoeddus drwy gydol yr holl broses gomisiynu. Mae’r Cylch yn adnodd a ddatblygwyd gan InHealth Associates sef menter gymdeithasol yn Lloegr, mewn partneriaeth â llawer o gomisiynwyr iechyd a gofal a chyrff sector cyhoeddus a gwirfoddol.

**Casgliad**

Er bod comisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn ddyletswydd newydd dan y Ddeddf, nid yw comisiynwyr yn dechrau â dalen wag. Mae adnoddau ar gael, a rhwydweithiau a phartneriaethau yn bodoli i’w cynorthwyo. Mae mwy yn debygol o ymddangos dros amser. Mae’n rhan o waith tîm Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd i sicrhau eich bod yn gwybod amdanynt a’ch bod yn cael y gorau ohonynt, er budd y rhan fwyaf o bobl ar y cyrion yn y gymuned. Rydym yma i gynorthwyo!

**Val Billingham, Age Cymru**

## *Cymorth i ddarparwyr eiriolaeth newydd a rhai sy'n bodoli eisoes*

Tra mai rôl y Swyddogion Datblygu Comisiynu yw cynorthwyo i greu gallu'r Comisiynwyr, rôl y Swyddog Datblygu Rhaglen dros Bartneriaethau yw cynorthwyo i greu gallu darparwyr. Maent yn sicrhau eu bod yn deall ac yn barod ar gyfer y broses dendro. Yn yr hydref anelwn at gyflwyno gweithdai a fydd yn rhoi mewnwelediad gwych i sut i dendro'n ffurfiol. Bydd yn egluro'r broses gaffael yn ogystal â phryd fydd rheoliadau'r UE yn berthnasol. Bydd yn deall gofynion y Comisiynydd ynghyd ag edrych ar fanteision cydweithredu gyda darparwyr eraill.

**Dyddiadau gweithdai i'ch dyddiadur:**

8fed Tachwedd – Gogledd Cymru – lleoliad a manylion i'w cadarnhau
10fed Tachwedd – Canolbarth Cymru – lleoliad a manylion i'w cadarnhau
11eg Tachwedd – De Cymru – lleoliad a manylion i'w cadarnhau

**GwerthwchiGymru**

GwerthwchiGymru yw porth Llywodraeth Cymru ar gyfer caffael. Gall unrhyw fusnes, sefydliad 3ydd sector neu elusen gofrestru am ddim ar GwerthwchiGymru.

Cyhoeddir cyfleoedd contractio sector cyhoeddus ar borth GwerthwchiGymru. Unwaith mae rhywun wedi'i gofrestru gyda holl broffiliau, gellir rhybuddio darparwyr i dendro cyfleoedd sy'n cyfateb â'u rôl benodol.

https://www.sell2wales.gov.wales/

I sicrhau nad ydych yn colli unrhyw gontractau, dylech:

- **Gwblhau a chofrestru eich proffil** – manylion y sefydliadau, cysylltiadau, ac ati; disgrifiwch eich cynnyrch neu wasanaeth yn gryno, gan ddatgan pwy yw eich cwsmeriaid neu gleientiaid presennol, a chynnwys holl fanylion cyswllt perthnasol
- **Yn ail**, sicrhewch eich bod yn cwblhau'r cofrestriad yn llawn drwy ddewis y codau ar gyfer yr holl wasanaethau yr ydych yn eu darparu dan y prif gategori gofal iechyd a chymdeithasol
- **Yn drydydd**, cwblhewch y **Proffil Canfod Cyflenwr**. Caniatâ hyn i chi hysbysebu ar y wefan. Yma gallwch ddarparu gwybodaeth fanwl ar eich gwasanaethau fel gall:
    - Comisiynwyr neu sefydliadau partner ganfod eich proffil drwy'r offeryn chwilio
    - Geiriau allweddol a ddewiswyd yn benodol i dynnu sylw at y gwasanaethau a gynigiwch
    - Eich cyfleoedd i dderbyn gwahoddiad uniongyrchol gan Gomisiynwyr yn defnyddio'r weithred 'dyfyniad cyflym' wella'n sylweddol
- **Yn olaf**, sicrhewch gwblhau'r **Proffil Rhybuddion** gan roi'r lleoliadau daearyddol lle cynigiwch wasanaethau, ynghyd â'ch categorïau cynnyrch/gwasanaeth a gyfatebir yn erbyn unrhyw gontractau comisiynu. Mae'r rhain wedyn yn eich hysbysu'n syth drwy e-bost.

**eDendro**

Mewn termau syml iawn, mae eDendro yn galluogi prosesau tendro i gael eu cynnal yn electronig. Erbyn 2018 bydd holl sefydliadau sector cyhoeddus yn defnyddio'r dull hwn i darddu eu cynnyrch a gwasanaethau. Mae nifer o fanteision i gomisiynwyr a darparwyr mewn mabwysiadu tendro electronig; e.e. effeithlonrwydd prosesau, arbed costau, llif taliadau/arian gwell, tryloywder gwell, i enwi rhai yn unig.

Cewch y ddolen isod ar gyfer y porth eDendro. Gallwch gofrestru gydag enw defnyddiwr a chyfrinair. Bydd hyn yn caniatáu i chi gael mynediad at unrhyw fanylion tendro perthnasol unwaith yr ydych wedi derbyn eich rhybudd e-bost:
https://etenderwales.bravosolution.co.uk/home.html

Parhad...

Ym mhob cylchlythyr byddwn yn eich cyflwyno at rywfaint o eirfa ar gaffael:

**Gweithdrefn Agored** – Gweithdrefn lle gall unrhyw fusnes sydd â diddordeb gyflwyno tendr

**Gweithdrefn Gyfyngedig** – Mae hon yn broses dau gam. Mae'n caniatáu comisiynwyr i lunio rhestr fer o bartïon â diddordeb drwy ymgymryd â cham cyn-cymhwyso, cyn cyhoeddi dogfennau gwahoddiad i dendro (ITT). Mae hyn fwyaf priodol pan fodola llawer o ddarparwyr o fewn y farchnad a lle nad yw'n bosib cyhoeddi ITT i bob un

**Cais am Ddyfynbris (RFQ)** – Dewis darparwr drwy RFQ gan nifer o gyflenwyr posibl. Penderfynir ar lefel y gwariant y dylid dewis cyflenwyr gan RFQ a'r nifer o ddyfynbrisiau gofynnol gan reoliadau ariannol y sefydliad. Fel arfer, bydd gofyn cael 3 dyfynbris gan y rheoliadau hyn

**Geirfa Caffael Cyffredin (CPV)** – System ddosbarthu sengl sy'n berthnasol i gaffael cyhoeddus i safoni'r cyfeirnodau a ddefnyddiwyd gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd. Mae'n disgrifio pwnc y contractau. Mae prif eirfa a heb is-eirfa sy'n crynhoi'r brif eirfa ac yn disgrifio gweithgaredd neu wasanaeth y gwaith yn fwy manwl.

**Carys Griffiths, Age Cymru**

## *'Digwyddiad Mawr' y Rhwydwaith Eiriolaeth 21 Medi 2016*

### *Gwesty Neuadd Maesmawr, Caersws*

**Noder bod y digwyddiad hwn yn benodol ar gyfer eiriolwyr a darparwyr eiriolaeth.**

Mae Age Cymru yn falch iawn unwaith eto i gynnal eu digwyddiad rhwydwaith eiriolaeth blynyddol sef y 'Digwyddiad Mawr' gyda siaradwyr gwych wedi'u trefnu i hysbysu, hwyluso, trafod a chynnig adnoddau defnyddiol y gallwch eu defnyddio yn eich gwasanaethau unigol.

Dyma'r siaradwyr sydd wedi'u cadarnhau:

- David Clayton, Pennaeth Diogelu ac Eiriolaeth Llywodraeth Cymru i drafod Rheoleiddio ac Arolygu gwasanaethau Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol ac i archwilio yn fanylach goblygiadau hyn ac i egluro rhai o'r sialensiau cysylltiedig.
- David Teague, Comisiynydd Cynorthwyol a Helen Thomas, Uwch Swyddog Polisi o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a fydd yn archwilio materion yn ymwneud â storio data, cyfrinachedd, torri cyfrinachedd, a goblygiadau torri data neu fel arall o ganlyniad i ddyletswydd newydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i adrodd.
- Gail Petty a Kate Mercer, a fydd yn siarad â ni am y fframwaith canlyniadau a'r pecyn cymorth eiriolaeth newydd
- Rachel Rowlands, Prif Weithredwr Age Connects Morgannwg, a fydd yn rhoi cipolwg i ni o'r angen am Raglen Eiriolaeth Edau Euraidd yn seiliedig ar y gwaith Diogelu Eiriolaeth maent wedi ei gyflwyno
- Louise Hughes, Age Cymru yn cyflwyno'r sesiwn drafodaeth o amgylch y bwrdd ar pam mai eiriolaeth yw'r edau euraidd yn y Ddeddf, y cyfleoedd mae hynny'n ei gyflwyno i eiriolwyr ac archwilio arfer da a allai gefnogi datblygiad gwasanaethau yn y dyfodol.


Bydd y digwyddiad yn cael ei gadeirio gan Ian Thomas, Prif Weithredwr, Age Cymru.

Bydd yr holl siaradwyr hefyd yn hwyluso trafodaethau o amgylch y bwrdd ar eu meysydd pwnc arbenigol fel bod eiriolwyr yn cael cyfle nid yn unig i wrando ond hefyd i gymryd rhan a dysgu o'r digwyddiad.

Nodwch: oherwydd y nifer uwch na'r arfer o gynrychiolwyr sy'n mynychu'r digwyddiad hwn a'r angen i dalu ein costau rydym yn codi ffi o £35 i fynychu'r digwyddiad hwn.

Os hoffech fwy o fanylion am y digwyddiad neu ffurflen archebu, anfonwch e-bost at Ffion: ffionjones@agecymru.org.uk.

## *Cael yr help sydd ei angen arnoch gan y Gwasanaethau Cymdeithasol: Canllaw i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014)*




Yn dilyn gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ym mis Ebrill, mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi cynhyrchu canllaw dwyieithog i helpu pobl hŷn ddeall eu hawliau dan y Ddeddf newydd.

Mae'r Ddeddf yn anelu at greu ymagwedd genedlaethol at y modd y mae Awdurdodau Lleol yn hyrwyddo lles ac yn amddiffyn pobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

Am y tro cyntaf, mae'r Ddeddf yn sicrhau bod gofalwyr yn cael eu trin ar yr un sail â'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau ac mae ganddynt yr hawl i gael cefnogaeth os ydynt wedi cael asesiad sy'n dangos eu bod ei angen. Bellach, nid oes yna drothwy o oriau gofalu i fod yn gymwys am asesiad gofalwr.
Mae'r canllaw ar gael ar wefan Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru: Cael yr help sydd ei angen arnoch gan y Gwasanaethau Cymdeithasol

## *Safle gwybodaeth newydd yn cael ei lansio i wella lles yng Nghymru*

Mae gwasanaeth gwefan newydd nodedig wedi cael ei lansio i helpu pobl i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt i wella eu lles a chael mynediad i wasanaethau cefnogi lleol yng Nghyru

Mae gwefan Dewis Cymru yn ddatblygiad newydd pwysig i Gymru – pwynt mynediad sengl, clir a dibynadwy y gellir ei ddefnyddio gan aelodau o'r cyhoedd yn ogystal â gweithwyr proffesiynol gwasanaethau gofal ledled Cymru i helpu i gefnogi pobl i gyflawni eu hamcanion lles.

Mae'r wefan newydd yn ffurfio rhan o gyflwyniad parhaus y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) sy'n amlygu sut mae darparu gwybodaeth o ansawdd uchel yn chwarae rhan ganolog o ran helpu pobl i aros yn annibynnol, rheoli eu lles a llunio'r gwasanaethau gofal maent yn eu derbyn.

Datblygwyd y wefan yn wreiddiol fel cydweithrediad rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y SSIA, yr Uned Ddata, Rhaglen Pwynt Mynediad Sengl Gogledd Cymru a Rhwydwaith Gwybodaeth Gogledd Cymru, ond mae Dewis Cymru bellach wedi cael ei fabwysiadu gan bron pob un o'r ardaloedd awdurdod lleol ar draws Cymru.

www.dewis.cymru

## *Eiriolaeth yn y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016*

Cynlluniwyd y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i gefnogi gweithrediad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n darparu fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys gwasanaethau eiriolaeth.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar weithredu Cam 1 o Ddeddf 2016. Yn y ddogfen ymgynghori (*) maent yn nodi mai eu bwriad yw cyfyngu ar gofrestru i Eiriolaeth Annibynnol Broffesiynol (IPA) fel y diffinnir yng Nghod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Deddf (**).

Nid yw Gweinidogion yn bwriadu ymestyn y rheoliadau i Wasanaeth Eirioli Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol (EGMA) / Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (IMHA) neu fathau eraill o eiriolaeth, ac yn datgan yn achos darparwr eiriolaeth sy'n darparu ystod o wasanaethau gwahanol, bydd y Ddeddf 2016 yn gymwys "yn unig i Eiriolaeth Annibynnol Broffesiynol a gomisiynwyd gan awdurdodau lleol i ddarparu eiriolaeth i gefnogi unigolion i fynegi eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau fel y nodir yn y cod ymarfer eiriolaeth. "

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai Eiriolwyr Proffesiynol Annibynnol ddod o fewn cwmpas y diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol fel y nodir yn adrannau 79 (1) (b) ac (c) o Ddeddf 2016. Byddai hyn yn cynnwys "unrhyw un sy'n rheoli lleoliad lle mae, neu o le mae, gwasanaeth rheoledig yn cael ei ddarparu, neu sydd, yng nghwrs eu cyflogaeth gyda darparwr gwasanaeth, yn darparu gofal a chymorth i unrhyw un yng Nghymru mewn cysylltiad â gwasanaeth rheoledig a ddarperir gan y darparwr hwnnw. "

Mae hyn yn golygu y byddai Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol:

- Yn dod o fewn cwmpas swyddogaethau Gofal Cymdeithasol Cymru (bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn disodli Cyngor Gofal Cymru ym mis Ebrill 2017);
- Yn ddarostyngedig i'r codau sy'n cael eu cynhyrchu gan Ofal Cymdeithasol Cymru (GCC); ac
- Yn dod o dan yr ystod o weithgareddau lle mae gan Ofal Cymdeithasol Cymru ddyletswydd i ddarparu safonau uchel mewn gwasanaethau, ymddygiad ac ymarfer ayyb.

Mae Gweinidogion yn cynnig cyfyngu ar y gofyniad i reolwyr gwasanaethau eiriolaeth i gofrestru, a fyddai'n ychwanegol at yr angen i bractisau eiriolaeth gofrestru fel darparwr gwasanaethau dan Ran 1 o'r Ddeddf.

Mae cwestiynau 25-29 yn y ddogfen ymgynghori yn ymwneud yn benodol â Rheoleiddio Gwasanaethau Eiriolaeth.

Mae darparwyr eiriolaeth, eiriolwyr a phobl sy'n defnyddio eiriolaeth yn cael eu hannog i gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad pwysig hwn, y dyddiad cau ar gyfer gwneud hynny yw **20 Medi 2016**.

Bydd ymateb Age Cymru yn cael ei ddrafftio gan Rosanne Palmer (Cynghorydd Polisi), gallwch gysylltu â hi trwy e-bostio rosanne.palmer@agecymru.org.uk neu ffonio 02920 431555.

(*) Dogfen Ymgynghori: http://gov.wales/consultations/healthsocialcare/regulation-and-inspection-act/?lang=en

(**) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth) http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part10cy.pdf

**Paul Swann, Age Cymru**

## Hyb Gwybodaeth a Dysgu Cyngor Gofal Cymru

Mae Cyngor Gofal Cymru wedi cael y dasg o weithio gydag ystod o bartneriaid i ddatblygu cynllun dysgu a datblygu cenedlaethol i gefnogi gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Nod cyffredinol y fenter hon a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw sicrhau bod y gweithlu yn cael ei gefnogi a'i hysbysu i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol yn unol â chyfraith Cymru, a'i gysylltiad â statudau perthnasol eraill, ac i weithio yn unol ag egwyddorion y Ddeddf.

Mae'r cynllun dysgu cenedlaethol yn cynnwys datblygu ystod o ddeunyddiau dysgu y gellir cael mynediad atynt am ddim o un Hyb Gwybodaeth a Dysgu canolog sydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth arall am y Ddeddf a'i gweithrediad. Mae'r prosbectws hwn yn darparu canllaw syml i'r adnoddau hyn.

Noder: bydd adnoddau newydd yn cael eu hychwanegu at yr Hyb yn rheolaidd a bydd y prosbectws hwn yn cael ei ddiweddaru'n aml.

**Adnodd Hyfforddi Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol**

Mae'r adnoddau hyn wedi cael eu cynllunio i roi trosolwg i chi o agweddau allweddol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas ag eiriolaeth ac yn benodol Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol. Datblygwyd yr adnodd hwn gan Age Cymru, mewn partneriaeth ag Anabledd Cymru, Prifysgol Abertawe a Martin Coyle cyn Prif Weithredwr Action for Advocacy. Yn y llawlyfr hyfforddi hwn, maent yn archwilio Rhan 10 o'r Ddeddf ar eiriolaeth a sut mae eiriolaeth yn cyd-fynd â rhannau eraill o'r Ddeddf. Mae hefyd yn anelu at ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o eiriolaeth ymhlith y rhai a allai fod â'r potensial i weithio gyda, neu wneud atgyfeiriadau at, wasanaethau eiriolaeth.

Mae'r holl ddeunyddiau nawr ar gael ar Hyb Cyngor Gofal Cymru. Gallwch ddod o hyd iddynt yma:

Saesneg: http://www.ccwales.org.uk/learning-resources-1/advocacy/

Cymraeg: http://www.cgcymru.org.uk/adnoddau-dysgu-1/eiriolaeth/

## OPAAL yn lansio Maniffesto Eiriolaeth Pobl Hŷn 2016

Cyn Etholiad Cyffredinol y llynedd, cynhyrchodd OPAAL 5 o ofynion allweddol gyda chyfraniad yr aelodau. Efallai eich bod eisoes yn ymwybodol, mae OPAAL wedi ymgynghori gydag aelodau eto i ddatblygu 5 o ofynion allweddol cyfredol i lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r seneddau/cynulliadau datganoledig ar ffurf eu Maniffesto Eiriolaeth Pobl Hŷn 2016.

Mae'r Maniffesto hwn yn alwad i weithredu gan OPAAL i sicrhau bod hawl pobl hŷn i gael mynediad at eiriolaeth yn cael ei gynnwys mewn polisi a deddfwriaeth a bod pobl hŷn yn rhan o ymgynghoriadau a datblygu polisi.

Rydym hefyd yn annog aelodau i rannu'r Maniffesto drwy eu rhwydweithiau eu hunain, ac os ydych yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol rydym hefyd yn gofyn i chi rannu'r maniffesto gan ddefnyddio'r hashnod #advocacyworks i'n helpu i gadw'r sgwrs am eiriolaeth i bobl hŷn i fynd (ein henw twitter yw @OPAALUK).

Am ragor o wybodaeth, ewch i: Maniffesto Eiriolaeth Pobl Hŷn 2016

## *Y Gwobrau Eiriolaeth Genedlaethol*

Mae'r Gwobrau Eiriolaeth Genedlaethol yn agored i unrhyw un sy'n cyfrannu at y maes Eiriolaeth Annibynnol. Mae hyn yn cynnwys unigolion, sefydliadau, grwpiau anffurfiol a gweithwyr proffesiynol. Nid ydym eisiau clywed am arferion da - rydym eisiau dathlu, rhannu a dysgu am bobl, sefydliadau ac arferion rhagorol.

Mae yna 5 categori i enwebu pobl a sefydliadau:

1. Eiriolwr Eithriadol
2. Gwasanaeth Eithriadol
3. Cyd-weithio Gorau
4. Cyfraniad Eithriadol at Gydraddoldeb ac Amrywiaeth
5. Cefnogaeth Gorau i Eiriolaeth

Bydd un o enillwyr y 5 categori yn ennill 'Gwobr Eiriolaeth Aur' y flwyddyn.

Cyflwynir Tystysgrif Enwebiad i bawb sydd wedi cael eu henwebu.

Bydd y 4 enwebiad gorau yn cael eu rhoi ar y rhestr fer a chyhoeddir yr enillwyr yn y Seremoni Wobrwyo ar 12 Hydref 2016 ym Mirmingham.

Cliciwch yma i archebu tocynnau i'r digwyddiad.

Am ragor o wybodaeth, ewch i:

http://www.advocacyawards.co.uk/

## *Canllawiau SIAA i eiriolwyr sy'n gweithio mewn carchardai*

Mae Cynghrair Eiriolaeth Annibynnol yr Alban (SIAA) yn credu y dylai pawb sydd ei angen gael mynediad i eiriolaeth annibynnol. Fodd bynnag, maent yn cydnabod bod mynediad yn amrywio o ardal i ardal a bydd yn dibynnu ar Gontractau neu Gytundebau Lefel Gwasanaeth lleol. Rhoddir blaenoriaeth, ym mhob ardal, i'r rhai sydd â hawl mynediad statudol fel y nodir yn Neddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) (Yr Alban) 2003. Mae'r hawl mynediad ar gyfer unrhyw un sydd ag anhwylder meddwl (problem iechyd meddwl, anabledd dysgu, dementia, pobl sydd ag anaf i'r ymennydd) ac mae'n cynnwys mynediad i eiriolaeth un i un a chyfunol.

Mae SIAA wedi bod yn ymwybodol ac wedi adrodd am fynediad cyfyngedig iawn i eiriolaeth annibynnol o fewn llawer o garchardai'r Alban. Mae trosglwyddo cyfrifoldeb dros ofal iechyd gan Wasanaeth Carchardai'r Alban yn 2011 wedi arwain at Fyrddau GIG yn edrych ar y bwlch hwn mewn perthynas â'u sefydliadau cynllunio eiriolaeth ac eiriolaeth lleol ac maent yn gynyddol yn gorfod ystyried sut allant ddarparu eiriolaeth o fewn lleoliad carchar.

I ddarllen y canllawiau, dilynwch y cyswllt isod:

Canllawiau SIAA i eiriolwyr sy'n gweithio mewn carchardai

## *Hyfforddiant a Digwyddiadau Defnyddiol*

**Byddwch yn Rym dros Newid: Cynhadledd Eiriolaeth Genedlaethol 2016**
**13 Hydref 2016, Birmingham NEC**

Am ragor o wybodaeth ewch i:

http://www.katemercer-training.com/conference_2016/

**Cwrs Gwneud eich Eiriolaeth yn Hygyrch**
Dydd Llun 19 Medi 9:30am, diwrnod llawn, Llundain—E114
Mae'r cwrs hwn yn edrych ar sut y gall eiriolwyr a gwasanaethau wneud eu gwasanaeth yn hygyrch i'r grwpiau o bobl maent yn dymuno eu cefnogi. Yn arbennig, mae'r cwrs yn archwilio'r rhwystrau y mae darpar ddefnyddwyr gwasanaeth yn eu hwynebu wrth gael mynediad i'r gwasanaeth eiriolaeth, sut i sefydlu prosesau atgyfeirio hygyrch (gan gynnwys atgyfeiriadau gan weithwyr proffesiynol, aelodau o'r teulu a gofalwyr) a chael mynediad i grwpiau anodd eu cyrraedd (fel pobl sydd heb allu neu sydd angen dulliau cyfathrebu gwahanol).

**Cwrs Rheoli Gwasanaethau Eiriolaeth**
Dydd Iau 6 Hydref 9:30am, diwrnod llawn, Llundain—E114
Mae rheoli gwasanaethau eiriolaeth yn gofyn i'r rheolwr i ddatblygu sgiliau ar draws sbectrwm eang o feysydd: o ddeall pa gymorth mae eiriolwyr unigol ei angen i gyflwyno cais am dendr yn effeithiol, mae angen i reolwyr fod yn gymwys mewn nifer o feysydd. Bydd y cwrs undydd hwn yn mynd i'r afael â rheoli a chefnogi eiriolwyr, sut i gynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn effeithiol mewn rhedeg y gwasanaeth eiriolaeth, datblygu perthnasoedd â chomisiynwyr, datblygu perthnasoedd gyda darparwyr gwasanaethau a chynllunio busnes effeithiol.

**Cwrs Mesur Canlyniadau Eiriolaeth**
Dydd Mawrth 1 Tachwedd 9:30am, diwrnod llawn, Llundain—E114
Mae'r cwrs hwn wedi'i anelu'n bennaf at reolwyr ac eiriolwyr profiadol sydd am ddysgu mwy am ba ganlyniadau i'w mesur a sut i wneud hynny. Mae'r cwrs yn edrych ar y gwahaniaeth rhwng canlyniadau ansoddol a chanlyniadau meintiol, datblygu dulliau effeithiol o gadw cofnodion a sut i ddefnyddio'r Sgôr Hyrwyddwr Net (NPS) i fesur boddhad defnyddwyr gwasanaethau. Cewch hefyd gyfle i archwilio sut i ddefnyddio'ch data i ddylanwadu ar bolisi ac arfer lleol.

Am ragor o wybodaeth am y cyrsiau uchod, ewch i:

Www.katemercertraining.co.uk

## *Cyhoeddiadau defnyddiol*

**Y Fframwaith Canlyniadau Eiriolaeth: Mesur effaith eiriolaeth annibynnol**

Datblygu fframwaith canlyniadau ar gyfer eiriolaeth a fydd yn helpu darparwyr eiriolaeth i gasglu tystiolaeth o arferion da, ac yn helpu comisiynwyr a phobl sy'n defnyddio eiriolaeth i weld a yw sefydliad yn cyflawni canlyniadau da i bobl.

Dangosodd ymchwil gan NDTi nad oes yna gorff sylweddol o dystiolaeth ynghylch effaith eiriolaeth ar hyn o bryd – boed yn gadarnhaol neu'n negyddol. Bydd fframwaith canlyniadau yn helpu i fynd i'r afael â'r her hon ac yn helpu i ddangos gwerth eiriolaeth dda.

I weld y ddogfen, ewch i:

http://www.ndti.org.uk/uploads/files/Advocacy_framework.pdf

## Cael eich clywed:  pecyn cymorth hunan-eiriolaeth i ofalwyr

Casgliad o adnoddau integredig a gynhyrchwyd gan Carers Scotland yw'r Pecyn Cymorth Hunan-Eiriolaeth i Ofalwyr i helpu gofalwyr i gael eu clywed.

Yn ganolog iddo mae ein canllaw Cael eich Clywed, sy'n darparu gwybodaeth ac yn awgrymu technegau i helpu gofalwyr i eirioli drostynt eu hunain. Mae hefyd yn cynnig cyfeiriadau a chysylltiadau i elfennau eraill o'r Pecyn Cymorth i ofalwyr i gael mynediad at ragor o wybodaeth.

Am fwy o wybodaeth, dilynwch y cyswllt isod:

Cael eich clywed:  pecyn cymorth hunan-eiriolaeth i ofalwyr

**Cysylltwch â ni...**

- **I danysgrifio i'r cylchlythyr**
- **Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau ynghylch yr erthyglau**
- **Os oes yna rywbeth yr hoffech ei weld yn cael ei gynnwys yn rhifyn nesaf y cylchlythyr**

**E-bost: ffion.jones@agecymru.org.uk**

**Rhif ffôn y Rhaglen Edau Euraidd: 01352 706228**

**Mae'r golygydd yn cadw'r hawl i newid erthyglau a gyflwynwyd i'w cyhoeddi. Nid yw'r safbwyntiau a geir yn y Cylchlythyr hwn o reidrwydd yn farn Age Cymru.**

**Mae hysbysebion a mewnosodiadau yn cael eu derbyn yn ddidwyll, ond nid yw cynhyrchion na gwasanaethau y cyfeirir atynt yn cael eu cymeradwyo na'u hargymell gan Age Cymru.**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Age Cymru – Creu Cymru oed gyfeillgar / Creating an age friendly Wales

diverse cymru – Promoting equality for all / Hyrwyddo cydraddoldeb i bawb

age connects wales.

Age Cymru,
Tŷ John Pathy,
13/14 Cwrt Neptune,
Ffordd Blaen y Gad,
Caerdydd, CF24 5PJ

t: 029 2043 1555
e: enquiries@agecymru.org.uk
www.agecymru.org.uk

Elusen Gofestrig rhif: 1128436
Cwmni cofestrig rhif:  6837284